

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 7fed o DACHWEDD 2016 YN NEUADD YR EGLWYS,LLANGYNDEYRN AM 7.00.

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Geraint Rosser,Ian Evans,Tyssul Evans,Heddwyn Jones,Margaret Rees,Geoff Hewitt, Meic Bowen,Linda Williams,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1566 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd y Cyn-gynghorydd Emyr John ar ei briodas yn ddiweddar i Helen. Hefyd estynnwyd cyfarchion y Cyngor i Manon Lloyd, Torcoed Fawr Crwbin, ar ennill 2 Medal Aur yn Cwpan Seiclo'r Byd yn ddiweddar yn yr Alban.

1567 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 03/10/2016 fel rhai cywir.

1568 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1543 – Shared Access - Mae'r dogfennau cyfreithiol wedi eu trosglwyddo i'r Cwmni Cyfreithiol, Ratio Law.

Tud 3. Cofnod Rhif 1563 - Toiledau'r Meinciau - Arhoswn am y dogfennau angenrheidiol cyn cadarnhau'r penodiad.

Tud 3. Cofnod Rhif 1564 – Cyfansoddiad y Cyngor – Mae'r broses yn parhau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1569 Pontyates & District Caged Bird Society – Penderfynwyd talu am hurio Neuadd Pontiets ar gost o hyd at £100.

1570 Eisteddfod Llangollen - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1571 Llanelli Centre for the Deaf – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1572 Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1573 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1574 Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1575 Bethel Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1576 Cyngor Sir Gar – Newid Lleoliad Swyddfa Bost Pontiets– Nodwyd y llythyr.

1577 Cyngor Sir Gar – Newidiadau i gasgliadau sbwriel ac ailgylchu ledled Sir Gaerfyrddin – Nodwyd y llythyr.

1578 Cyngor Sir Gar - Apêl Teganau Nadolig - Penderfynwyd cefnogi'r Apêl a'r rhoddion i ddod i law erbyn Cyfarfod Mis Rhagfyr.

- 1579** Jonathan Edwards AS - Ymgynghoriad Ffonau talu cyhoeddus BT - Penderfynwyd gwneud cais i gadw'r Blychau Ffon ganlynol
- a) Maes y Wern, Carwe
 - b) Heol y Meinciau, Pontiets (Tu allan i'r Swyddfa Bost)

Ceisiadau Cynllunio

1580 Ceisiadau Cynllunio

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

- a) Cais Rhif W/34608 – Clwb Rygbi Pontiets – Twr Ffon Symudol – Dim Gwrthwynebiad.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

- b) Cais Rhif W/34609 – Mr D.Bacon – 1 Heol Nasareth, Pontiets – Byngalo – Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

- 1581** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Hydref 2016. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

- 1582** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Hydref)
 - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
 - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Hydref)
 - ch)** HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Hydref)
 - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Hydref)
 - dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Hydref)
 - e)** Stampiau - £20.88

Cyllideb 2017/2018

- 1583** Penderfynwyd galw Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid am 2 o'r gloch ar 05/12/16 yn Swyddfa'r Cyngor i drafod y Gyllideb

Materion Cynghorwyr

- 1584** **Ian** a) Cais am groesfan wrth Neuadd Carwe

Cyfarfod nesaf:- 5ed Rhagfyr 2016 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....